




Tŷ Grosvenor

Brenig Ward

Gwasanaethau adsefydlu iechyd meddwl
Lefel 2 i gleifion mewnol

Cipolwg ar y gwasanaeth:

2

Gwasanaeth
Lefel 2



Cyfanswm
o 15 gwely



Gwasanaeth i
ddynion



18 oed a throsodd



Mae Tŷ Grosvenor yn cynnig gwasanaeth adsefydlu iechyd meddwl Lefel 2 mewn lleoliad sy'n ddiogel ac yn gefnogol i gleifion mewnol ag anghenion iechyd meddwl cymhleth – heb yr angen am lefelau uchel o ddiogelwch. Wedi'i leoli yng nghanol Wrecsam, mae ein gwasanaeth wedi'i adeiladu ar fodel gofal sy'n canolbwyntio ar adferiad, wedi'i gynhyrchu ar y cyd.



Ein ffordd o weithio

Ein nod yw darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person, sy'n meithrin gobaith, hyder ac annibyniaeth. O'r adeg y cânt eu derbyn, rydyn ni'n cydweithio â defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu cynlluniau gofal wedi'u teilwra sy'n cefnogi eu nodau ac yn hyrwyddo'r broses o ryddhau'n llwyddiannus i'r gymuned.

Pwy rydyn ni'n ei gefnogi

rydyn ni'n croesawu unigolion sy'n:

- Ddynion rhwng 18 a 65 oed
- Wedi cael diagnosis sylfaenol o salwch meddwl, gan gynnwys:
 - Anableddau dysgu ysgafn
 - Awtistiaeth
 - Anhwylder Personoliaeth
- Arddangos ymddygiadau heriol
- Hanes o drawma, camddefnyddio sylweddau neu alcohol, neu gyfranogiad fforensig
- Yn camu i lawr o wasanaethau diogel
- Yn uniaethu fel dynion (yn trawsnewid neu beidio), anneuaid, rhyweddhyllfol, person nad yw'n cydymffurfio o ran ei rywedd, neu rywedd cwiar
- Wedi'u cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (diwygiwyd 2007) neu'n gleifion anffurfiol
- Yn gweithio tuag at ailintegreiddio i'r gymuned





Beth a wnawn

Yn Nhŷ Grosvenor, rydyn ni'n darparu rhaglen adsefydlu holistig sy'n canolbwyntio ar y person, wedi'i chynllunio i gefnogi unigolion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth. Mae ein ffordd o weithio wedi'i gwreiddio mewn tosturi, gofal sy'n seiliedig ar drawma, ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n hyrwyddo adferiad, annibyniaeth ac ail-integreiddio i'r gymuned.

Mae pob unigolyn yn gweithio'n agos gyda'n Tîm Amlddisgyblaethol i greu cynllun gofal personol sy'n adlewyrchu eu nodau, eu cryfderau a'u gwerthoedd. Rydyn ni'n canolbwyntio ar adeiladu perthnasoedd therapiwtig, meithrin gwydnwch emosiynol, a chefnogi llesiant meddyliol a chorfforol.

Mae ein hymyriadau'n cynnwys therapïau un-i-un a grŵp, datblygu sgiliau byw bob dydd, ac arferion strwythuredig sy'n annog hunan-ofal, rheoli meddyginiaethau, a gweithgaredd ystyrlon. Rydyn ni hefyd yn cefnogi'r broses o ymgysylltu â'r gymuned drwy wirfoddoli, addysg, a chyfleoedd galwedigaethol, gan helpu unigolion i feithrin hyder a chysylltiadau cymdeithasol.

Rydyn ni'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy fynediad at raglenni ffitrwydd, gweithgareddau awyr agored, a gwasanaethau gofal iechyd lleol. Caiff teuluoedd eu hannog i gymryd rhan, gyda chymorth ar gael i helpu i ail-adeiladu a chynnal perthnasoedd positif.

Mae technoleg wedi'i hintegreiddio i'n gofal, gan gynnig mynediad at offer digidol ar gyfer dysgu, cyfathrebu a hamdden. Drwy gydol eu siwrnai, mae unigolion yn cael eu grymuso i gymryd perchnogaeth o'u hadferiad a pharatoi ar gyfer trosglwyddo'n ôl i'r gymuned yn llwyddiannus.

Pa gymorth rydyn ni'n ei gynnig

Rydyn ni'n cynnig therapïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys:

- Dad-sensiteiddio ac Ailbroesu Symudiadau'r Llygaid (EMDR)
- Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)
- Therapi Ymddygiad Gwybyddol (CBT)

Mae gennym staff sydd wedi'u hyfforddi i asesu a diagnosis awtistiaeth.

Y tîm

Mae gan Dŷ Grosvenor dîm o staff sefydledig a phrofiadol sy'n cynnig gofal arbenigol sy'n canolbwyntio ar y person wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r tîm yn cynnwys

- Seiciatrydd Ymgynghorol
- Meddyg Arbenigol Cyswllt
- Therapydd Galwedigaethol a Hyfforddwyr Technegol
- Seicolegydd a Chynorthwywyr Seicoleg
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Nyrsys
- Hyfforddwyr a Gweithwyr Adferiad.





O'n Cwmpas

Wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i ganol y ddinas, lle welwch chi fanciau, siopau, bwyta, caffis, canolfan hamdden, campfeydd a Choleg Cambria. Mae gennym gysylltiadau â meddygfa leol sy'n cofrestru pob claf pan gaiff ei dderbyn i Dŷ Grosvenor. Mae Ysbyty lleol y GIG yn darparu clinigau i gleifion allanol lle bo angen. Mae gennym Feddygfa Ddeintyddol y GIG o fewn pellter cerdded i Dŷ Grosvenor, lle gall pob claf gofrestru. Mae gennym berthynas wych â sawl lleoliad gwaith gwirfoddol ynghyd â Choleg Cambria os oes unrhyw un yn dymuno cofrestru ar gyrsiau. Mae gennym fws mini ar y safle i gefnogi cleifion i gael mynediad at y gymuned ehangach. Mae Tŷ Grosvenor o fewn cyrraedd Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae gan orsafoedd trên a bysiau Wrecsam gysylltiadau

uniongyrchol â sawl rhan o'r wlad. Mae'r ysbyty wedi'i amgylchynu gan gefn gwlad gyda llawer o weithgareddau awyr agored o fewn cyrraedd hawdd.

Ar ward Brenig, mae yna ardal fawr i fwyta, lolfa ac ardal hamdden gymunedol, ynghyd â bwrdd pŵl. Mae gan bob ystafell wely ystafelloedd ymolchi en-suite. Mae yna ystafell therapi galwedigaethol fawr lle gall cleifion gael mynediad at gyfrifiadur, mynychu gweithdai cyflogaeth, neu gymryd rhan mewn therapi grŵp ac amser hamdden. Ceir cegin adsefydlu a mynediad at ardd gaeedig. Mae Wi-Fi ar gael drwy gydol yr adeilad ac mae gan gleifion fynediad at dechnoleg fel adnodd dysgu, cymdeithasol a hamdden.

Comisiynu ac Atgyfeiriadau

Mae Tŷ Grosvenor o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Caiff gwelyau eu comisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ond hefyd gan Fyrddau Iechyd eraill Cymru a thimau comisiynu o Loegr.

Our values



Kindness -

in everything we say and do

Integrity -

being honest and doing the right thing

Teamwork -

working together to deliver great care and outcomes

Excellence -

being outstanding at what we do

Sut i wneud atgyfeiriad:



Llinell atgyfeirio 24 awr **0800 218 2398**



Anfonwch e-bost at:
referrals@elysiumhealthcare.co.uk

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd, Braille, fersiwn Hawdd ei Darllen ac Iaith Arwyddion Prydain ar gais

Tŷ Grosvenor
16 Grosvenor Road,
Wrexham, LL11 1BU

T: 01978 802800

E: tygrosvenor@elysiumhealthcare.co.uk



I wyllo ein taith fideo, ewch i
elysiumhealthcare.co.uk

 Rhan o Ramsay Health Care

